**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref DLS/ITJ/ls
Ein cyf/Our ref KS/06572/19

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

IwanJ@gwynedd.llyw.cymru

24 Mehefin 2019

Annwyl Dyfrig,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 28 Mai am waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 14 Mai. Yn gyntaf, gaf i eich llongyfarch eto am eich penodi yn Gadeirydd y Bwrdd.

Gallaf gadarnhau mai 27 Mehefin fydd y dyddiad ar gyfer sesiynau her y Sector Preifat a Llywodraeth y DU/Gweinidogion Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru.

Nid oes amheuaeth bod Penawdau'r Telerau erbyn diwedd Gorffennaf yn amserlen heriol ond rydym wedi ymrwymo i gydweithio â chi, Llywodraeth y DU a'r bwrdd i gyrraedd y garreg filltir bwysig hon ar amser. Byddai'n bleser gennyf fod yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd a bydd fy swyddfa yn cadarnhau a fyddaf ar gael ar gyfer cyfarfod mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

Rwy'n disgwyl i HS2 gyflawni manteision gwirioneddol i Ogledd Cymru, a'r nod yw elwa i'r eithaf ar y rhain er mwyn sicrhau bod teithwyr yng Nghymru'n profi newid sylweddol o ran amlder gwasanaethau, safon gwasanaethau ac amseroedd teithio.

Mae gorsaf Crewe yn chwarae rhan amlwg o fewn rhwydwaith rheilffordd y DU ac mae'n gyfnewidfa bwysig ar gyfer teithwyr o bob rhan o Gymru. Bydd yr orsaf hon yn bwysicach nag erioed yn dilyn cyflwyno gwasanaethau HS2 yn 2027. Mae tair llinell brysur eisoes yn croesi yn Crewe, a golyga'r ffaith y gall wasanaethu dalgylch eang ei bod mewn lleoliad perffaith i gynnig cyfnewidfa allweddol rhwng gwasanaethau cyflym iawn a gwasanaethau presennol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn sicrhau bod Cymru'n elwa i'r eithaf ar HS2 bydd yn rhaid creu canolfan yn Crewe mewn modd a fydd yn galluogi pobl sy'n teithio i Gymru ac oddi yno i ddefnyddio rhwydwaith HS2 yn gyflym ac yn ddidrafferth. Bydd yn rhaid i'r ganolfan, man lleiaf, gael ei gwasanaethu gan drenau rheolaidd a chyflym iawn, bydd yn rhaid sicrhau cysylltedd agos a didrafferth rhwng gwasanaethau cyflym iawn a rhai clasurol a bydd yn rhaid sicrhau capasiti digonol ar gyfer gwasanaethau trên presennol a gwasanaethau clasurol sydd ar y gweill o fewn safle'r brif orsaf.

Yn olaf fe gofiwch o'n cyfarfod ar 22 Mai, y bydd Gwen Roberts, Prif Swyddog Rhanbarthol Gogledd Cymru yn trefnu i gyfarfod â chi ar wahân i drafod nifer o faterion gan gynnwys:

- Strategaeth ryngwladol newydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Gogledd Cymru;
- Uwchgynhadledd ynni posibl ar gyfer y rhanbarth;
- Cyflwyno swyddogion i Gyfarwyddwr Rhaglen newydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Yn Gywir,

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport